

Ms Karen Harrowing
Nuffield Health
Epsom Gateway
Ashley Avenue
Epsom
Surrey
KT18 5AL

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost:
Philomena.price2@wales.gsi.gov.uk

29 Ebrill 2014

Annwyl Ms Harrowing,

Par: Ymweliad dirybudd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ag Ysbyty Bae Caerdydd ar 23 Ebrill 2014

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd ag Ysbyty Bae Caerdydd ar 23 Ebrill 2014. Amlygodd yr ymweliad feysydd sy'n haeddu sylw gan gynnwys:

- Roedd adborth y grŵp o gleifion yn gadarnhaol ynghylch y staff a'r gofal a geir.
- Roedd y gwaith papur ar gyfer cyfarfodydd llywodraethu clinigol ac archwiliad yn llawn gwybodaeth ac yn ystyried y cyfarfodydd a'r gweithredoedd blaenorol.
- Nifer ac ystod y staff oedd ar ddyletswydd ac roedd systemau i sicrhau bod y staff yn diweddarau eu gwybodaeth am ddatblygiadau ymarfer.
- Roedd ystod helaeth o offer clinigol ar gael ac roedd yr adeiladau'n bwrpasol a glân ac o ansawdd uchel.
- Nododd y cleifion ac aelodau eu teuluoedd y siaradwyd â hwy eu bod wedi cael profiad cadarnhaol iawn o ran pob agwedd ar eu gofal. Teimlent fod ansawdd y gofal, gan gynnwys yr wybodaeth a'r gefnogaeth yr oeddent wedi'u derbyn ar ôl eu hymgyngoriad a/neu eu triniaeth neu weithdrefn a'r

gofal a gawsant wedyn yn ardderchog. Teimlent fod yr holl staff yn rhoi digon o sylw iddynt a'u bod yn broffesiynol, gofalgarn a chymwynasgar iawn.

- Roedd yr holl staff yn ymddangos yn frwdfrydig am eu gwaith, teimlent eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac roeddent yn hollol ymroddedig i ddarparu safonau uchel o ofal i'w grŵp o gleifion. Gwelwyd yn bendant ysbryd tîm a hwyliau da ymhlith aelodau'r tîm.

TROSOLWG O'R LLEOLIAD GOFAL IECHYD

Ansawdd y driniaeth a'r gofal

Mae Vale Healthcare yn perthyn i Nuffield Health, elusen gofrestredig, ac yn cael ei redeg gan yr elusen. Roedd ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau ar gael i Ysbyty Bae Caerdydd. Roedd trefniadau llywodraethu wedi'u sefydlu ac roedd holl bolisïau a gweithdrefnau Nuffield Health ar gael yn electronig a'r staff perthnasol yn cael mynediad atynt. Roedd ystod eang o wybodaeth am lywodraethu, awdit a pherfformiad ar gael, unwaith eto yn electronig. Fodd bynnag, polisïau a gweithdrefnau Nuffield Health oeddent ac nid oeddent wedi cael eu haddasu ar gyfer gweithgareddau lleol a dylid gwneud hyn. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau wrthi'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd gan fod yr ysbyty yn y broses o gael ei alinio'n fwy agos at Nuffield Health. Oherwydd hyn roedd angen addasu'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer eu defnyddio'n lleol a sicrhau eu bod ar gael ymhob adran ar bapur. Nid oeddent ar gael ar bapur ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd angen proses llywodraethu clinigol sy'n glir ac fe drafodwyd hyn â Phrif Weithredwr Ysbyty Vale, Hensol, a oedd yn cynrychioli rheolwr cofrestredig Ysbyty Bae Caerdydd, nad oedd ar gael adeg yr ymweliad.

Roedd tystiolaeth glir o awdit mewn cadw cofnodion a rheoli heintiau ac roedd cwynion a digwyddiadau clinigol yn cael eu cofnodi ar gronfa ddata ganolog a'u trafod mewn cyfarfodydd perthnasol. Ni welwyd cynlluniau gweithredu a ddatblygir o ganlyniad i awdit, cwynion a digwyddiadau a thrwy drafod â'r Prif Weithredwr canfuom mai'r arfer presennol yw eu cofnodi. Argymhellir y dylid cynnwys pob cynllun gweithredu yn y cofnodion a gedwir ar gyfer y mathau hyn o ddigwyddiad. Nid oedd asesiadau risg mewn adrannau clinigol wedi cael eu hadolygu ers 2010 ond dywedwyd wrthym fod adolygiadau wedi digwydd a'u bod ar gael ar y fewnrwyd. Mae angen i asesiadau risg cyfredol fod ar gael ymhob adran i'r staff eu gweld pan fo angen.

Holid barn cleifion yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn trwy holiaduron boddhad cleifion. Mae'r rheolwr cofrestredig yn adolygu'r rhain yn barhaus ac yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ar unwaith. Roedd y meysydd dan sylw yn cynnwys glanweithdra a chyfleusterau, bwcio apwyntiadau a thriniaethau, gofal clinigol a gwasanaethau arlwy. Ceir unigolyn sy'n gyswilt ar gyfer rheoli heintiau a chysylltiadau â thimau rheoli heintiau Nuffield Health.

Ar ddiwrnod yr arolygiad canfuom fod rhai llofnodion ar goll yng nghofnodion cyffuriau rheoledig y theatrau a thrafodwyd hyn ar y pryd. Argymhellwyd hefyd y dylai

pob aelod staff clinigol sy'n gweinyddu cyffuriau yn derbyn addysg yn flynyddol ar reoli meddyginiaethau i sicrhau bod eu gwybodaeth a'u hymarfer yn gyfredol.

Roedd y Datganiad o Ddiben a'r Canllawiau i Gleifion wrthi'n cael eu diweddarau ac felly nid oeddent ar gael yn yr ysbyty. Fe drafodwyd hyn ar y pryd a gwnaed trefniadau i sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael a rhoddwyd copi interim i dîm yr adolygiad cyn i ni gwblhau'r ymweliad.

Rheolaeth a Phersonél

Ar adeg ein hymweliad roedd yn ymddangos bod niferoedd y staff yn briodol ac roedd trefniant staff banc wedi'i sefydlu ar gyfer unrhyw adegau pan oedd staff yn absennol drwy drefniant neu yn annisgwyl. Roedd Ysbyty Bae Caerdydd yn recriwtio rhagor o nyrsys banc ar hyn o bryd yn enwedig yn arbenigrwydd pediatreg a theatrau.

Roedd y cofnodion hyfforddiant ac addysg yn drefnus ac roedd prosesau a chofnodion yn bodoli i reoli perfformiad, gan gynnwys gwerthuso a goruchwyllo staff. Roedd yr holl staff wedi derbyn rhaglen gynefino gynhwysfawr ac yn cael cyfleoedd i gael addysg parhaus. Cefnogid staff clinigol i gynnal eu cofrestriad proffesiynol gyda mynediad parhaus i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Roedd systemau Adolygu Perfformiad Unigol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Eiddo, amgylchedd a chyfleusterau

Adeiladwyd yr ysbyty yn bwrpasol gyda chyfleusterau modern ac ystod dda o offer. Roedd prosesau wedi'u sefydlu i lanhau, diheintio a sterileiddio offer y theatrau ac roedd offer arbenigol yn cael eu hurio yn ôl yr angen. Gwelwyd bod rhai storfeydd yn orlawn gydag eitemau'n cael eu storio ar silffoedd uchel, gan beri risg i iechyd a diogelwch. Trafodwyd yr angen i unioni hyn ar ddiwrnod yr ymweliad.

Rheoli cofnodion

Roedd yr holl gofnodion sy'n ofynnol dan ddeddfwriaeth yn cael eu cadw ar roedd yr holl ddogfennaeth yn cael ei chadw'n ddiogel yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data. Dilynid yr holl ganllawiau o ran diogelu data a chanllawiau Caldicott a gwelsom fod y ffordd y rheolir gwybodaeth yn foddhaol.

Adolygwyd sampl o gynlluniau gofal/asesiadau a dogfennau gofal perthnasol eraill. Roedd dogfennaeth y cynlluniau gofal a'r asesiadau cysylltiol yn dda ac roedd tystiolaeth glir bod cleifion yn chwarae rhan yn y broses o gynllunio gofal.

Tynnwyd sylw at y materion isod yn ystod yr ymweliad ac fe wnaethom roi trosolwg ohonynt ar lafar i gynrychiolydd yr ysbyty ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae'n rhaid nodi bod yr uwch dîm reoli'n rhagweithiol wrth ymateb i'r gweithredoedd sydd eu hangen.

Gofynion newydd o ganlyniad i'r arolygiad hwn:

Gweithredoedd sydd eu hangen	Amserlen ar gyfer eu cwblhau	Rhif y Rheoliad
1. Polisiâu Nuffield Health yw'r rhai a ddefnyddir ac nid ydynt wedi cael eu haddasu i'w defnyddio'n lleol. Roedd angen adolygu'r amserlen ar gyfer rhai polisiâu hefyd.	48 awr	Rheoliad 9 (1)
2. Nid oedd y Polisi Amddiffyn Plant ar gael ar fewnwyd Nuffield Health.	48 awr	Rheoliad 16(1)(a)(b) &3
3. Roedd llofnodion ar goll yn y Llyfr Cofnodion Cyffuriau a Reolir, sydd â thair llinell o lofnodion sy'n ofynnol ar gyfer pan fydd cyffuriau'n cael eu cyflenwi, eu gweinyddu a'u gwaredu ac nid oedd yr holl lofnodion yn bresennol ar gyfer y rhain.	Ar unwaith ac yn barhaus	Rheoliad 9(i) ac 15 (5) (a) (b)

Argymhellion Arferion Da:
- Dylai pob aelod o staff sy'n ymwneud â rheoli meddyginiaethau dderbyn hyfforddiant yn flynyddol ar reoli meddyginiaethau - Mae angen ffurfioli'r systemau ar gyfer goruchwyliaeth glinigol.

Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ddiolch i'r holl aelodau staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech drafod cynnwys y llythyr hwn.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mr Tim Atter, Cyfarwyddwr Ysbyty, rheolwr cofrestredig yn Ysbyty Bae Caerdydd.

Yn gywir iawn



Phil Price
Rheolwr yr Arolygiad